**RIPORTIO CYNNWYS NIWEIDIOL**

# Y CANLLAW BACH YNGHYLCH RIPORTIO CYNNWYS NIWEIDIOL

reportharmfulcontent.com



## Bygythiadau

**Damcaniaethol** - Bygythiadau sydd ddim yn ddifrifol ac sy'n annhebygol o ddigwydd. Nid yw'r rhain yn tueddu i dorri telerau safleoedd rhwydweithio cymdeithasol oni bai fod ffactorau eraill i'w ystyried.

**Credadwy** - Bygythiad sy'n rhoi rhywun mewn perygl o niwed yn syth ee bygythiad i fywyd. Hefyd, gellir eu defnyddio i gymell a blacmelio pobl. Dylid bob amser riportio'r mathau hyn o fygythiadau i'r heddlu.

reportharmfulcontent.com



## Dynwared

Mae hyn yn golygu pan fydd rhywun yn cymryd hunaniaeth person arall i'w aflonyddu neu eu twyllo. Hefyd, fe all gynnwys ymddygiad fel creu cyfrifon ffug neu hacio cyfrifon, gyda'r bwriad o dargedu unigolyn fel arfer

reportharmfulcontent.com

**Pwrpas y gwasanaeth hwn yw:**

**Rhoi gwybodaeth**
am safonau cymunedol

**Rhoi cyngor ynghylch**
sut i riportio problemau

**Cyfryngu lle bo'n briodol**
neu egluro pam nad yw'r cynnwys wedi'i ddileu

**Helpu i dynnu cynnwys**
niweidiol oddi ar lwyfannau

Cyflwynir gan:

SWGfL
Safe, Secure, Online



## Hunan-niweidio a Hunanladdiad

Nid yw'r rhan fwyaf o lwyfannau'n caniatáu unrhyw gynnwys sy'n hybu neu'n mawrygu hunan-niweidio neu hunanladdiad, neu gynnwys sy'n dweud wrth rywun am wneud hynny. Mae gan rai llwyfannau brosesau ar waith i ddiogelu defnyddwyr sy'n gweld neu'n rhannu'r math yma o gynnwys.

Os ydych yn cael trafferth gyda'ch iechyd meddwl ac eisiau siarad â rhywun yn annibynnol am hyn, mae'r Samariaid ar gael i helpu.

reportharmfulcontent.com



## Bwlio ac Aflonyddu

Gall hyn gynnwys iaith sy'n targedu unigolyn neu grŵp o bobl, trolio, lledaenu sibrydion ac eithrio pobl o gymunedau ar-lein. Mewn achosion o aflonyddu, mae'r ymddygiad yn cael ei ailadrodd a'i fwriad yw achosi trallod. Dylid riportio achosion o aflonyddu dro ar ôl tro i'r heddlu.

reportharmfulcontent.com




## Cam-drin Ar-lein

Term eang sy'n cynnwys unrhyw fath o gam-drin sy'n digwydd ar safle rhwydweithio cymdeithasol, gwefan, llwyfan chwarae gemau neu ap. Yn gyffredinol, mae'n digwydd ar lafar ond mae'n gallu cynnwys cam-drin ar sail lluniau.

reportharmfulcontent.com



## Cynnwys Treisgar

Mae hyn yn cynnwys delweddau graffig sy'n dangos trais, ee fideos neu olygfeydd sy'n mawrygu cam-drin anifeiliaid

reportharmfulcontent.com

I gael gwybodaeth am fathau eraill o niwed ar-lein, ewch i: reportharmfulcontent.com/advice

Os ydych chi neu rywun rydych yn ei helpu mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch: 999

I riportio gweithgarwch sy'n ymwneud â therfysgaeth, ewch i: act.campaign.gov.uk

I riportio lluniau o gam-drin plant yn rhywiol, ewch i: iwf.org.uk




## Cynnwys Pornograffig

Cynnwys oedolion (noeth neu rywiol) sydd ddim yn anghyfreithiol ond sy'n torri telerau'r rhan fwyaf o lwyfannau ar-lein

reportharmfulcontent.com



## Cynigion Rhywiol Digroeso

Mae hyn fel arfer yn golygu negeseuon nad ydych wedi gofyn amdanyn nhw, negeseuon digroeso neu negeseuon o natur rywiol.

reportharmfulcontent.com

I gael rhagor o gyngor:

**Llinell Gymorth Revenge Porn**
revengepornhelpline.org.uk

**UK Safer Internet Centre**
saferinternet.org.uk

**Samaritans**
samaritans.org

**The Mix (ar gyfer pobl ifanc dan 25 oed)**
themix.org.uk

**CEOP (amddiffyn plant)**
ceop.police.uk/safety-centre

**Childline**
childline.org.uk

UK Safer Internet Centre

Co-financed by the European Union
Connecting Europe Facility